# Cerdd



"Mae'r pwnc yn agor drysau i lawer iawn o arddulliau gwahanol o gerddoriaeth o jazz cynnar i gerddoriaeth glasurol. Cewch gyfle i ddangos eich dawn perfformio, cyfansoddi a gwerthuso pob mathau o gerddoriaeth. Mae'n eich gwneud yn gerddor cyflawn ac yn barod at unrhyw waith o fewn y maes."

Glesni Rhys





## Pam astudio Cerdd?

Mae'r cwrs Safon Uwch yn canolbwyntio ar dair agwedd o gerddoriaeth – perfformio, cyfansoddi a dadansoddi. Drwy hynny, mae'r disgybl yn dysgu sgiliau trosglwyddadwy megis sgiliau dadansoddi a chyflwyno. Yn ogystal â hynny, mae creadigrwydd yn ganolog i'r cymwyster a chyfle i astudio'r defnydd o gerddoriaeth mewn ffilm a chyngerdd. Mae'r tair agwedd yn galluogi'r disgybl i ddeall sut mae cerddoriaeth yn gweithio a'r berthynas rhyngddi â chymdeithas – yn hanesyddol ac yn gyfoes. Gall dealltwriaeth o gerddoriaeth arwain at feysydd proffesiynol eang o fod yn berfformiwr i fod yn gyfansoddwr ar gyfer y cyfryngau, gemau a'r theatr.

## Gofynion y cwrs

Nid yw cymwyster TGAU yn angenrheidiol er mwyn dilyn cwrs Safon Uwch ym mhob achos. Fodd bynnag, dylai'r myfyriwr feddu ar ddealltwriaeth dda o theori cerdd a sgiliau perfformio lleisiol neu offerynnol i safon gradd 5 (UG) a gradd 6 (U2).

## Manylion y cwrs a'r dulliau asesu

### UG

40% o'r cymwyster cyfan. Ceir 12% ar gyfer perfformio o leiaf dau ddarn (cyfanswm rhaglen 6 – 8 munud, uned 1), 12% cyfansoddi dau ddarn (cyfanswm portffolio 3 – 6 munud, uned 2). Ceir 16% am arfarnu sef arholiad ysgrifenedig (1½ awr, uned 3). Mae'r perfformio'n cael ei asesu gan arholwr allanol sy'n ymweld â'r ysgol a'r portffolio cyfansoddi'n cael ei anfon am asesiad allanol.

### Uwch

60% o'r cymwyster cyfan. Ar gyfer unedau 4 a 5, caiff y disgybl ddewis naill ai opsiwn A sef

- perfformiad (uned 4, 22% o'r cymwyster) estynedig 10 – 12 munud a phortffolio cyfansoddi (uned 5, 14% o'r cymwyster) 3 – 6 munud,

neu opsiwn B sef

- perfformiad (uned 4, 14% o'r cymwyster) 6 – 8 munud a phortffolio cyfansoddi (uned 5, 22% o'r cymwyster) estynedig 5 – 9 munud.

Hefyd, arholiad ysgrifenedig (2½ awr, uned 6, 24% o'r cymwyster) ar Draddodiad Cerddorol y Gorllewin a Cherddoriaeth yr Ugeinfed a'r Unfed Ganrif ar Hugain.

## Sgiliau a ddatblygir a swyddi posibl

Mae astudio cerddoriaeth yn ffordd ardderchog o ddatblygu sgiliau cyflwyno fel perfformiwr. Rydym yn dysgu'r pwnc drwy ddatblygu sgiliau ymarferol fel tîm mewn ensemblau dosbarth sy'n datblygu'n grwpiau perfformio y tu allan i'r dosbarth. Mae'r pwnc yn meithrin sgiliau cymdeithasol ymhlith disgyblion wrth weithio ar dasgau creadigol mewn grŵp ac wrth weithio tuag at berfformiadau ysgol gyfan a thu hwnt. Hefyd, caiff y disgyblion ddatblygu sgiliau TGCh wrth gyfansoddi a pherfformio sy'n eu paratoi ar gyfer cyflogaeth yn y sector Diwydiannau Creadigol sy'n faes lle gwelir twf aruthrol ar hyn o bryd.